**CYFARFOD RHIF 7 CADEIRYDDION GRWPIAU PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU – CAMAU GWEITHREDU**
**23 EBRILL 2012, CANOLFAN GATEWAY, AMWYTHIG**

Cafodd Cyfarfod Rhif 7 Cadeiryddion Grwpiau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ei gadeirio gan Matthew Quinn, Cyfarwyddwr Rhaglen Cymru Fyw, Llywodraeth Cymru. Arweiniodd Matthew weithdy a fu'n ystyried y cyfeiriad y bydd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn mynd iddo yn y dyfodol ac a fu'n ystyried dulliau o gryfhau'r prosesau llywodraethu cyfredol.

**Yn bresennol:** Matthew Quinn (Cadeirydd), Llywodraeth Cymru; Caryn Le Roux, Cadeirydd y Grŵp Ecosystem Tir Fferm Amgaeëdig; Peter Dennis, Cadeirydd Grŵp Ecosystem yr Ucheldir; Helen Buckingham, Cadeirydd Grŵp Ecosystem Gweundir a Glaswelltir yr Iseldir; Jan Sherry, Cynrychiolydd y Grŵp Ecosystem Ardaloedd Trefol a Thir Llwyd; Celia Thomas, Cynrychiolydd y Grŵp Ecosystem Coetiroedd; Peter Jones, Cadeirydd y Grŵp Ecosystem Gwlyptiroedd; Cynrychiolydd Grŵp Canlyniad 21; Tracey Lovering, Cydlynydd Cadeiryddion/Ymgynghorydd Ecosystemau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru; Jill Bell a Paul Brazier, Cyd-gadeiryddion y Grŵp Ecosystem Forol; Tristan Hatton-Ellis, Cadeirydd y Grŵp Ecosystem Dŵr Croyw; Peter Rhind, Cadeirydd y Grŵp Ecosystem Arfordirol: Stephen Bladwell, Cadeirydd y Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau a Chynrychiolydd Grŵp Llywio Gwybodaeth Amgylcheddol Cymru, Robert Griffiths.
Ymddiheuriadau: Cadeirydd y Grŵp Rhywogaethau Estron Goresgynnol, Pete Charleston, y Grŵp Gorfodi Troseddau yn erbyn Bywyd Gwyllt.

| **Rhif** | **Pwy/Cam gweithredu** | **Pwy** | **Erbyn** |
|---|---|---|---|
| 1 | Cofnodi'r gweithdy | Matthew Quinn | 4 Mai |
| 2 | Dylai pob Cadeirydd/Grŵp roi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion polisi rheoleiddiol[1] a ddarparwyd yn flaenorol gan eu Grŵp, gan gynnwys enghreifftiau lle bo hynny'n berthnasol. Dylid anfon y wybodaeth at Tracey Lovering | Pob Cadeirydd | 21 Mai |
| 3 | Bydd angen cael Adroddiadau Blynyddol ar Gynnydd Grwpiau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru erbyn Cyfarfod 17 Grŵp Llywio'r Bartneriaeth. Dylid eu hanfon at Tracey Lovering (mae adroddiadau'r llynedd ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru er gwybodaeth[2]) | Pob Cadeirydd | 24 Mai |
| 4 | Dylid sicrhau y darperir manylion cyswllt yr arweinydd wrth ymyl pob angen o ran ymchwil. Fel arall, caiff y Cadeirydd ei hysbysu gan arweinwyr academaidd sydd â diddordeb/cysylltiadau yn y maes. Dylid anfon y manylion hyn at Tracey Lovering | Pob Cadeirydd | 4 Mai |
| 5 | Cynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru - syniadau ar gyfer gweithdai. Dylid eu hanfon at Sean McHugh[3] | Pawb | 21 Mai |
| 6 | Dylid darparu manylion cyswllt cynrychiolwyr academaidd (y sawl sy'n mynychu a'r sawl sy'n cael gohebiaeth) ar gyfer Tracey Lovering | Pob Cadeirydd | 4 Mai |

[1] Gweler yn atodedig '2012 Update request - WBP Policy Issues – Regulations'
[2] http://www.biodiversitywales.org.uk/content/uploads/documents/SG%20Meetings/SG13/WBP%20SG13%20Combined%20Files.pdf
[3] s.mchugh@welshwildlife.org

| | | | |
|---|---|---|---|
| 7 | Bydd Claire Burrows yn trafod eitem ynghylch Ffridd ar gyfer Cynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, ac yn darparu eitem os bydd angen. Dylid cysylltu â Sean McHugh | Caryn Le Roux | 21 Mai |
| 8 | Dylai'r Grwpiau ethol Cadeiryddion neu gynrychiolwyr i gefnogi'r Gweithdy i Academyddion yn ystod ail hanner mis Mehefin, a dylent ddarparu syniadau ar gyfer cynnwys a ffurf y gweithdy. Dylid anfon y syniadau at Tracey Lovering | Pob Cadeirydd | 4 Mai |
| 9 | Mae angen i'r Grŵp Glaswelltir Amgaeëdig a Fforwm Gweithredu Bioamrywiaeth Mamaliaid Cymru (trwy'r Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau) ddarparu gwybodaeth am fylchau mewn tystiolaeth/ anghenion o ran ymchwil. Dylid anfon y wybodaeth at Tracey Lovering | Caryn Le Roux a Stephen Bladwell | 4 Mai |

**Cyswllt:**

Tracey Lovering t.lovering@ccw.gov.uk
Ffôn: 01970 631177/Ffôn symudol: 07779 010580